

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Traphont Taf Fechan, Cefn Coed,  
Merthyr Tudful) (Gwahardd  
Cerbydau Mawr Dros Dro) 2023

The A465 Trunk Road (Taf Fechan  
Viaduct, Cefn Coed, Merthyr  
Tydfil) (Temporary Prohibition of  
Large Vehicles) Order 2023

Gwnaed 24 Mawrth 2023

Made 24 March 2023

Yn dod i rym 1 Ebrill 2023

Coming into force 1 April 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1)(a), (4) a 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1)(a), (4) and 15(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Taf Fechan, Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2023.

### Title and commencement

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Taf Fechan Viaduct, Cefn Coed, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2023 and this Order comes into force on 1 April 2023.

### Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni.

### Interpretation

2. In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 00:01 hours on 1 April 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n pwyso mwy na 44 tonnall ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bentan dwyreiniol Traphont Taf Fechan, Cefn Coed, Merthyr Tudful i bentan gorllewinol y Draphont.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

5. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol ag adran 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, y bydd y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn yn cymryd mwy na 18 mis i'w orffen. Caiff y Gorchymyn hwn ei ddirymu pan gaiff y gwaith ei gwblhau.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Mawrth 2023

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle with a weight of or exceeding 44 tonnes on the length of the trunk road that extends from the eastern abutment to the western abutment of Taf Fechan Viaduct, Cefn Coed, Merthyr Tydfil.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The Welsh Ministers are satisfied, in accordance with section 15(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, that the execution of works giving rise to this Order will take longer than 18 months. This Order will be revoked on completion of the works.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 March 2023

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government